

Mae fersiwn Saesneg a fersiwn Hawdd ei Deall o'r ddogfen hon ar gael.

Polisi Camddefnyddio Sylweddau

Cwmpas a Diben y Polisi

Yn CAVC, rydym yn cydnabod effaith sylweddol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar lesiant a datblygiad unigolion. Rydym wedi ymrwmo i fabwysiadu dull seiliedig ar drawma yn ein polisiau ac arferion i greu amgylchedd diogel, cefnogol ac adferol i bawb.

Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp – Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwff.

Mae Caerdydd a'r Fro yn cymryd llesiant ei staff a'i fyfyrwyr o ddifrif ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod gennym goleg lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal a'u parchu. Bydd y Coleg yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol o safbwynt camddefnyddio sylweddau er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu priodol, a chan gydnabod ein rôl fugeiliol bydd yn anelu at roi agwedd gadarnhaol ar waith o ran addysgu ei fyfyrwyr yn y maes hwn. Ni fyddwn yn goddef camddefnyddio cyffuriau nac yn goddef cyflenwi'r sylweddau hyn yn anghyfreithlon. Diben y polisi hwn yw sicrhau bod yr ethos hwn yn rhan annatod o'r Coleg a bod yr holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr yn ymwybodol o'r pwysau a roddwn ar ymddygiadau sy'n ei gefnogi.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:

- Holl ddysgwyr o fewn y Grŵp, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.
- Holl aelodau staff o fewn y Grŵp.
- Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.
- Ymwelwyr â'r Grŵp.

Diffiniadau o ran Cyffuriau a Chamddefnyddio Sylweddau

Defnyddir y term 'cyffuriau' i gyfeirio at sylwedd sy'n newid tymer pobl neu'n newid y ffordd y mae cyrff pobl yn gweithio. Mae'r term yn cynnwys:

- Pob cyffur anghyfreithlon
- Pob cyffur cyfreithlon yn cynnwys alcohol, sylweddau anweddol (rhai sy'n gollwng nwy/anwedd y gellir ei fewnanadlu), 'Cyffuriau Newydd ac sy'n dod i'r Amlwg' a nitradau alcyl
- Meddyginiaethau dros y cownter a meddyginiaethau presgripsiwn a ddefnyddir yn anghyfreithlon
- Sigaréts (y tu allan i fannau penodol)

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y sefyllfa gyfreithiol yn Atodiad 1:

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

Datganiadau'r Polisi

Mae nifer o egwyddorion allweddol wrth wraidd y Polisi hwn:

- Rhaid i bobl sy'n cael mynediad i Goleg Caerdydd a'r Fro gael eu **diogelu** rhag niwed.
- Rhaid cefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu potensial tra yn y Coleg, mewn amgylchedd lle mae eu **llesiant** yn cael ei gyflawni fel eu bod yn teimlo'n dda amdanynt eu hunain ac yn parchu eraill.
- Yn y Coleg bydd ein dysgwyr yn datblygu'r **sgiliau** sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i ddatblygu'n llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.
- Mae ymrwymiad i ddulliau adferol yn sicrhau ein bod yn unioni niwed ac yn meithrin perthnasoedd.

Mae'r Coleg wedi ymrwmo i:

- Sicrhau nad oes defnydd o gyffuriau neu alcohol ar safle'r coleg - ar wahân i werthu a defnyddio alcohol yn y bwyty neu ddigwyddiadau eraill sydd wedi'u cymeradwyo a sigarêts mewn parthau ysmegu penodol.
- Sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn gyflym ac yn rheolaidd yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Cysylltiadau Dysgwr. Bydd y gweithdrefnau hyn yn cynnwys hysbysu'r Heddlu os bydd rhywun yn cael ei ddal yn cyflenwi cyffuriau, er nad oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny.
- Hysbysu cymuned y Coleg o'r gweithdrefnau hyn; sicrhau bod pawb yn ymwybodol o beryglon camddefnyddio sylweddau ar hyn y dylen nhw ei wneud petai digwyddiad yn digwydd.
- Hyrwyddo dealltwriaeth o gyffuriau a goblygiadau camddefnyddio sylweddau. Gwneir hyn drwy hyfforddi staff, drwy'r broses gyflwyno a thiwtorial i ddysgwyr, digwyddiadau ar thema a defnyddio cyhoeddusrwydd a phosteri ar draws y coleg. Bydd y Coleg yn datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau allanol all gynnig gwybodaeth a chefnogaeth i ni a'n dysgwyr.
- Cofnodi a monitro achosion o gamddefnyddio sylweddau er mwyn sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn a'n bod yn ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd o bryder neu dueddiadau.
- Adolygu effeithiolrwydd ein polisi a'n hymateb i gamddefnyddio sylweddau yn rheolaidd a gweithredu ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Polisi a gweithdrefnau Camddefnyddio Sylweddau y Coleg yn cael eu gweithredu'n llawn a'u dilyn gan staff.
- Adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i'r maes hwn.

Bydd yr Uwch Grŵp Cynllunio yn gyfrifol am:

- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Monitro'r broses o gymhwyso'r gweithdrefnau, cefnogi staff i lynu wrth y polisi ac ymateb yn effeithiol i unrhyw feysydd sy'n achos pryder.
- Sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion perthnasol y coleg e.e. derbyniadau, tiwtorial ayyb.
- Cefnogi'r Coleg i ddatblygu diwylliant lle mae ymddygiad a pharch priodol yn cael eu hyrwyddo.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol.

Mae Pennaeth Cynorthwyol, Taith y Dysgwr, yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn gyfredol.
- Sicrhau bod adnoddau priodol yn cael eu neilltuo er mwyn bodloni gofynion y polisi a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddiweddarau a gwella arfer.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad priodol.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

Mae'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod gweithdrefnau disgyblu'r Coleg yn darparu ar gyfer diffyg cydymffurfio bwriadol neu fynych â'r Polisi hwn.

Mae Pennaethiaid ar Ddyletswydd yn gyfrifol am:

- Ymdrin â digwyddiadau a'r person/au sydd ynghlwm â nhw gan ddilyn gweithdrefnau LRM y Coleg.
- Cofnodi unrhyw ddigwyddiadau.

Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:

- Drin yr holl ddysgwyr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu ddrwgdeimlad.
- Bod yn ymwybodol o'r polisi hwn a'r gweithdrefnau a gweithio mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'w cynnwys.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

- Ymddwyn yn unol â'r Polisi hwn os ydynt yn dyst i unrhyw beth neu os yw dysgwyr yn troi atynt ynghylch problem. Sicrhau bod unrhyw honiadau yn cael eu trin o ddifrif ac yn cael eu hymchwilio'n drylwyr.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus ar agweddau ar ddiogelu a chamddefnyddio sylweddau.
- Gwybod lle i gael gwybodaeth am sefydliadau allanol sy'n cynnig cefnogaeth i'r rheiny sy'n camddefnyddio sylweddau.
- Cefnogi ein dysgwyr drwy unrhyw ddigwyddiad.
- Cefnogi'r Coleg i ddatblygu diwylliant lle mae ymddygiad a pharch priodol yn cael eu hyrwyddo.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Fynychu sesiynau sefydlu a thiworialau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r polisi a'r materion a godir ynddo.
- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg, a sicrhau bod unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â dysgwyr eraill yn cael eu trosglwyddo i staff.
- Cefnogi'r Coleg i ddatblygu diwylliant lle mae ymddygiad a pharch priodol yn cael eu hyrwyddo.
- Cyfrannu at arolygon dysgwyr a grwpiau ffocws.

Mae ymwelwyr yn gyfrifol am:

- Ymddwyn mewn modd sy'n cefnogi'r Polisi ar draws y Coleg.

Deddfwriaeth ac Arweiniad

Ysgrifennwyd y polisi mewn perthynas â'r mentrau a'r canllawiau canlynol gan y Llywodraeth:

- Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed (2008-2018)
- Canllaw ar Addysg Camddefnyddio Sylweddau 107/2013 (2013)
- Deddf Safonau Ysgolion a Sefydliadau (Cymru)

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Nid oes goblygiadau Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r polisi hwn sydd wedi cael eu nodi yn y testun eisoes.

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n dod law yn llaw â'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, h.y. ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio ym mywyd bob dydd.

Polisiau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Diogelu Data
- Ansawdd
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Diogelu
- Rheoli Perthnasoedd Dysgwyr
- Disgyblu (Staff)
- Cwynion (Staff)
- Bwlio ac Aflonyddu

Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Diogelu Data
- Diogelu
- Perthnasoedd Dysgwyr
- Bwlio ac Aflonyddu Myfyrwyr

Gweler Atodiadau

- Atodiad 1 Cyffuriau a'r Gyfraith
- Atodiad 2 Canllawiau Ymddygiad Dysgwyr - Camymddwyn Difrifol

Cyfathrebu a Storio

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

Geirfa

Dim

Ysbrydoledig. Cynhwysol. Dylanwadol.
Inspirational. Inclusive. Influential.

www.cardiffandvalecollege.ac.uk

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Dyddiad cymeradwyo: 05/07/13

Cymeradwywyd gan: CQSA

Dyddiad adolygu: 01/07/25

Rheolwr Cyfrifol: Pennaeth Cynorthwyol, Taith y Dysgwr

Arweinydd Gweithredol: Dirprwy Bennaeth, Taith y Dysgwyr ac Ansawdd

Hygyrch i Fyfyrrwyr: Ydy

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

Atodiad 1 - Gwybodaeth am Gyffuriau a'r Gyfraith

Deddf Camddefnyddio Sylweddau 1971

Bwriad y ddeddf yw atal cyffuriau penodol rhag cael eu defnyddio'n anfeddygol. Gelwir y cyffuriau sy'n berthnasol i'r Ddeddf hon fel cyffuriau 'a reolir'. Mae'r gyfraith yn diffinio cyfres o droseddau, yn cynnwys cyflenwad anghyfreithlon, bwriad i gyflenwi, mewnfario neu allfario (troseddau 'masnachu'), a chynhyrchu anghyfreithlon. Mae Deddf Camddefnyddio Sylweddau hefyd yn gwahardd meddiant anghyfreithlon. Er mwyn gweithredu'r gyfraith hon mae gan yr heddlu'r pwerau arbennig i atal, cadw a chwilio pobl ar 'amheuaeth resymol' eu bod yn meddu ar gyffur rheoledig.

Mae'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (MDA) yn rheoleiddio'r hyn a elwir yn gyffuriau rheoledig. Mae'n rhannu cyffuriau yn dri dosbarth, fel a ganlyn:

Dosbarth A: Mae'r rhain yn cynnwys, cocên a chrac (math o gocên), ecstasi, heroin, LSD, methadon, methamffetamin (meth crisial), madarch hud sy'n cynnwys ester psilocin ac unrhyw gyffur Dosbarth B sy'n cael ei chwistrellu.

Dosbarth B: Mae'r rhain yn cynnwys amffetamin (nid methamffetamin), barbitwradau, codin, cetamin a chanabis. Daethpwyd â'r holl ddeilliadau cathinon, gan gynnwys meffedron, methylon, methedron ac MDPV dan reolaeth fel sylweddau Dosbarth B yn 2010.

Dosbarth C: Mae'r rhain yn cynnwys steroidau anabolig, mân gyffuriau tawelu, GBL a GHB, a khat.

Mae'r gyfraith yn ystyried cyffuriau Dosbarth A fel y rhai mwyaf peryglus. Gall troseddau dan y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau gynnwys:

- Meddiant o gyffur rheoledig.
- Meddiant gyda'r bwriad i gyflenwi person arall.
- Cynhyrchu, dosbarthu neu weithgynhyrchu cyffuriau rheoledig.
- Cyflenwi cyffur rheoledig i berson arall.
Cynnig cyflenwi cyffur rheoledig i berson arall.
- Mewnfario neu allfario cyffuriau rheoledig.
- Caniatáu i adeiladau rydych chi'n eu meddiannu neu'n eu rheoli i gael eu defnyddio i gymryd rhai cyffuriau rheoledig (ysmygu canabis neu opiwm ond heb ddefnyddio cyffuriau rheoledig eraill) neu gyflenwi neu gynhyrchu unrhyw gyffur rheoledig.
- Gellir cael rhai cyffuriau rheoledig fel amffetaminau, barbitwradau, methadon, cyffuriau mân dawelu ac weithiau heroin trwy bresgripsiwn meddyg cyfreithlon. Mewn achos o'r fath, nid yw'n anghyfreithlon i'w meddiannu.

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

Cosbau

Mae'r dedfrydau uchaf yn wahanol yn ôl natur y drosedd - llai am feddiant; mwy ar gyfer masnachu, cynhyrchu, neu ar gyfer caniatáu i adeiladau gael eu defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi cyffuriau. Maent hefyd yn amrywio yn ôl pa mor niweidiol y tybir yw'r cyffur.

Fel arfer, ymdrinnir â throseddau llai difrifol mewn llysoedd ynadon, lle na all dedfrydau fod yn fwy na chwe mis a/neu ddirwy o £5,000, neu dri mis a/neu ddirwy. Mae'r rhan fwyaf o droseddwr cyffuriau yn cael eu barnu'n euog o feddiant anghyfreithlon. Er bod y dedfrydau uchaf fel arfer yn ddifrifol, dim ond oddeutu un ym mhob pump o bobl a gaiff eu barnu'n euog o feddiant sy'n destun dedfryd o garchar, ac mae llai na hynny yn mynd i'r carchar, gyda'r rhan fwyaf o ddirwyon yn £50 neu lai.

Cyrchwyd o: <http://www.drugwise.org.uk/what-are-the-uk-drug-laws/> 25/10/16

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25

Atodiad 2 Lefelau Ymddygiad Dysgwyr - Canllawiau

Camymddwyn Difrifol

Gall camymddygiad difrifol achosi gwaharddiad dros dro tra bod ymchwiliad llawn o'r digwyddiad yn cael ei gwblhau. Os bydd yr ymchwiliad yn dangos camymddwyn difrifol, caiff y dysgwr ei gyfeirio at Wrandawiad Disgyblu a allai arwain at ddiarddeliad o'r Coleg.

Yn mynychu Gwrandawiadau Prentisiaid Iau fydd cynrychiolwyr o'r Coleg a'r Awdurdod Lleol. Gellir cyfeirio unrhyw ddysgwr sydd wedi'i ddiarddel yn ôl i ysgol neu sefydliadau partner eraill.

Mae enghreifftiau o gamymddwyn difrifol yn cynnwys:

- Iaith ymosodol tuag at aelod o staff, cyd-fyfyrwr neu ymwelydd neu fygythiadau yn eu herbyn.
- Aflonyddu eraill neu eu trin yn annheg yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig e.e. rhywedd, hil, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu greddo crefyddol etc;
- Ymosod yn gorfforol;
- Cario arf treisgar;
- Gwneud difrod yn fwriadol i adeiladau neu eiddo'r Coleg neu eiddo eraill;
- Bod dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon, ym meddiant cyffuriau anghyfreithlon, cymryd neu geisio prynu neu werthu cyffuriau anghyfreithlon ar safle'r Coleg;
- Lladrata eiddo;
- Mygio;
- Llosgi bwriadol ar safle'r Coleg;
- Dylid ymdrin â llên-ladrad fel camymddygiad sylweddol neu ddifrifol dan y Polisi hwn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Noder y canlynol:

- Nid yw'r rhestr uchod yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr - bwriedir hwy fel canllaw yn unig. Mae categorieiddio camymddwyn yn fater o feirniadaeth broffesiynol a gall hyn newid o ganlyniad i wybodaeth a gafwyd wrth ymchwilio i'r mater neu wrando arno.
- Gall ymddygiad penodol gyfrif fel achos o dorri'r gyfraith a bydd fel rheol yn cael ei adrodd i'r heddlu.

Adolygiad Rhif:	7
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	07/23
Dyddiad Adolygu Nesaf:	07/25